## Beth yw'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol?

### Prawf Darllen Cenedlaethol:

Bydd pob disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 yn sefyll Prawf Darllen ym mis Mai.

### Prawf Rhifedd ac ymresymu Cenedlaethol:

Mae pob disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 yn sefyll Prawf Rhifedd a phrawf ymresymu ym mis Mai. Mae dwy ran i'r profion- un yn profi eu gwybodaeth gweithdrefnol (sgiliau rhifedd) a'r llall yn profi eu rhesymu rhifyddol (datrys problemau).

## Sut byddwn yn cael canlyniadau'r Profion?

Byddwch yn derbyn adroddiad o Lywodraeth Cymru ar bob prawf.

Bydd hyn yn rhoi:

- Sgôr Safonedig
- Sgôr sy'n gyfatebol ag oed
- Dangosydd o sut y perfformiodd eich plentyn o gymharu â disgyblion oed tebyg
- Sgôr cynnydd

Bydd adroddiad Llywodraeth Cymru yn ychwanegol i adroddiad blynyddol arferol eich plentyn a ysgrifennir gan athrawon.

## Beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Fframwaith sydd wedi'i gynllunio gan Lywodraeth Cymru, fel bod ein plant yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'n darparu deilliannau disgwyliedig clir mewn llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr 5-14 oed.

Bydd Ysgolion yn defnyddio'r Fframwaith i sicrhau y bydd addysgu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cynnwys yn yr holl bynciau ar draws y cwricwlwm yn hytrach na ffocysu ar Gymraeg, Saesneg a Mathemateg yn unig.






# Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Ysgol Bro Myrddin

Information for Parents

Ysgol Bro Myrddin Cluster

# HELPU FY MHLENTYN

## Rhifedd

- Y peth pwysicaf yw helpu eich plentyn i deimlo'n bositif ynghylch mathemateg a'i fwynhau ar bob achlysur;
- Rhoi'r cyfle i'ch plentyn i ddefnyddio a siarad am fathemateg bob dydd;
- Annog eich plentyn i:

Ddidoli:- i grwpiau, i drefn, a chymharu a mesur

Cyfrifo:- adio, tynnu, lluosi, rhannu

Trefnu a deall gwybodaeth

Edrych am batrymau a pherthynas rhwng rhifau

- Deall a gwirio gwybodaeth-dysgu gofyn 'Ydy'r ateb yn synhwyrol?'
- Cyfleu a chyflwyno gwybodaeth.

## Llythrennedd

- Sefydlu amser a lle rheolaidd i gael sesiynau dyddiol i ddarllen yn uchel
- Amrywiaeth o ddeunydd darllen yn gyfleus: llyfrau lluniau, llyfrau stori, mapiau, geiriaduron, cylchgronau a phapurau newydd
- Rhannu hoffter o lyfrau a darllen. Gall rieni ddweud wrth eu plentyn "Hwn oedd fy hoff lyfr pan oeddwn dy oed di."
- Cael digon o bapur ac offer ysgrifennu
- Cadw llyfrau a deunydd ysgrifennu mewn lleoedd y gall plant eu cyrchu yn hawdd
- Cael sgyrsiau'n aml - a gadael i blant fynegi eu teimladau a'u syniadau.

# BETH AM SGILIAU MEDDWL?

Gofynnwch gwestiynau i'ch plant er mwyn iddynt feddwl a mynegi syniadau e.e

- Os dyma'r ateb ...beth yw'r cwestiwn?
- Alli di ddyfeisio rhywbeth i ....?
- Pe baet yn Brif Weinidog, beth fyddet yn ei newid a pham?
- Rwyt wedi darganfod siap newydd rhyfedd. Beth yw e? Tynna lun ohono, disgrifia ef, rho enw iddo?
- Beth fydd yn digwydd os....?
- Pam mae....yn digwydd?
- Cynllunia a dylunia .... Sut mae'n gweithio? Eglura'r dewis o ddeunydd a siap.



## Pam cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

I godi safonau trwy helpu plant i gymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm.





## Sut rydym yn cynnwys y Fframwaith yn ein cwricwlwm?

Mae athrawon yn cynnwys sgiliau yn eu gwersi ac mae'r disgyblion yn datblygu/ymarfer sgiliau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, efallai bydd plant yn ysgrifennu cofnod mewn dyddiadur mewn gwers hanes neu'n dysgu sgiliau mesur mewn gwers gwyddoniaeth.



## Apps i gynorthwyo

- Puppet Pals (cyflwyniad - Sgiliau Siarad a Meddwl )
- Comic Life (Sgiliau Llythrennedd - ysgrifennu)
- Maths Bingo (Sgiliau Rhifedd)
- Spellasaur (Llythrennedd)
- Mathemagis (Sgiliau Rhifedd)
- My Story (Sgiliau Llythrennedd a Meddwl)
- Mathletics (Sgiliau Rhifedd)
- Explain Everything (Sgiliau Meddwl a Rhifedd).